**Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C** **Cyfarfod Rhif 413**
**13 Rhagfyr, 2017, S4C Llanisien, Caerdydd**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | Huw Jones | (Cadeirydd) |
| | John Davies | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Elan Closs Stephens | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Awdurdod) |
| **Staff S4C:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys) |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Phil Williams | (Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| | Llion Iwan | (Pennaeth Dosbarthu Cynnwys) |
| | Elin Morris | (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) |
| | Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) - eitem 4 |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| **Ymddiheuriadau:** | Siân Lewis | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Guto Harri | (Aelod o'r Awdurdod) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion cyfarfod 412, a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd**

2.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 412 (22.11.17).

**Cymeradwyodd yr Awdurdod gofnodion cyfarfod 22 Tachwedd.**

2.2 **Pwyntiau Gweithredu / Materion yn Codi**

**Penodiadau i'r Awdurdod**

Nodwyd fod nifer o drafodaethau wedi eu cynnal gyda swyddogion DCMS dros yr wythnosau diwethaf, a nodwyd eu bod yn ymwybodol iawn o'r risgiau o beidio penodi'n fuan. Cafwyd ar ddeall y byddant yn hysbysebu am 3 aelod newydd cyn diwedd y flwyddyn.

Roedd gwir risg i'r corff o ystyried y gallai'r bwrdd cyfan gynnwys aelodau newydd dibrofiad pan ddaw cyfnodau aelodau presennol i ben y flwyddyn nesaf.

Roedd angen sicrhau fod DCMS yn sylweddoli difrifoldeb sefyllfa aelodaeth yr Awdurdod erbyn hyn, a'r angen i hysbysebu am aelodau newydd ac ystyried tymhorau aelodau presennol.

2.3 **Rhaglen Waith yr Archwilwyr Mewnol**

Trafodwyd awgrymiadau ar gyfer rhaglen waith arfaethedig yr archwilwyr mewnol. Awgrymwyd y dylai'r archwilwyr ystyried materion yn ymwneud gyda strwythur bwrdd unedol o ystyried y gallai'r adolygiad awgrymu sefydlu bwrdd unedol ar gyfer llywodraethiant S4C. Awgrymwyd y gellid gofyn am gyngor Rhian Owen cyn llunio barn ar ein systemau.

Hyd yma, ni chwblhawyd y gwaith disgwyliedig gan yr archwilwyr mewnol, a nodwyd fod y Pwyllgor Archwilio yn awyddus iddynt gyflawni eu rhaglen waith yn brydlon.

Awgrymwyd y dylai PW/ShW gael cyngor Grant Thornton i gael arweiniad o ran eu gofynion parthed rhaglen waith yr archwilwyr.

2.4 **2.1.8 –** Pwysleisiwyd yr angen i wahodd gweinidogion DCMS, gan gynnwys Matt Hancock, i ddigwyddiadau perthnasol sy'n cael eu trefnu gan S4C.

2.5 **Balansau i'w dwyn ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn**

[**Crynodeb:** Trafodwyd polisïau'r DCMS ac S4C parthed balansau o'r fath. Mae agwedd y DCMS wedi newid dros amser ac fe fydd y drafodaeth rhyngddynt yn parhau.]

3. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

3.1 **Yr Adolygiad Annibynnol**

Nododd OE fod amserlen yr Adolygiad wedi llithro rhywfaint, ac nad oedd disgwyl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi bellach cyn y flwyddyn newydd.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r opsiynau i'r DCMS er mwyn caniatáu elfen o chwyddiant i S4C. Nid oedd gan S4C wybodaeth am unrhyw gynlluniau penodol, ond roedd y sgyrsiau yn parhau yng ngoleuni'r toriadau arfaethedig.]

Nodwyd pwysigrwydd gwarchod y berthynas adeiladol sy'n bodoli rhwng S4C a'r BBC.

Awgrymwyd y dylai OE, HJ a PW drefnu cyfarfod gydag uwch swyddogion y BBC er mwyn hwyluso unrhyw drafodaethau pellach.

Bydd OE yn cynnal cyfarfod gyda Clare Pillman yn fuan i geisio diweddariad, yn ogystal â Sue Owen yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

3.2 **Pwyllgor Diwylliant**

Gwahoddwyd OE, PW a HJ i fynd gerbron y Pwyllgor Diwylliant yfory er mwyn trafod Adroddiad Blynyddol S4C. Dyma'r adroddiad cyntaf i'w chyflwyno'n ffurfiol i'r Cynulliad.

3.3 **Nosweithiau Gwylwyr**

Roedd opsiynau ar gyfer nosweithiau gwylwyr S4C wedi'u cyflwyno gan y Cadeirydd i'r Swyddogion mewn cyfarfod arbennig.

Y prif gasgliadau oedd bod gwerth PR sylweddol ond na ddylid camddehongli pwrpas y nosweithiau, ac nad ydynt yn rhan o'r rhaglen waith ymchwil ansoddol.

**[Crynodeb:** Trafododd yr Aelodau'r adborth o'r nosweithiau o'i gymharu â'r ymchwil gan yr uned Dadansoddi. Roedd pryder y gellir creu canfyddiad negyddol nad ydym yn gwrando ar ein gwylwyr wrth wneud penderfyniadau. Rhaid sicrhau sylw priodol i farn y gynulleidfa graidd sy'n mynychu'r nosweithiau, ac yn cysylltu gyda Gwifren, ac os nad yw'r penderfyniad o'u plaid dylid egluro'r rhesymeg yn well ac yn amserol. Roedd noson Yr Wyddgrug yn esiampl lle gweithredwyd ar awgrymiadau'r noson a chytunodd yr Aelodau ar werth y nosweithiau i amlygu tueddiadau tymor hir o fewn y gynulleidfa graidd.]

Wrth benderfynu dirwyn cyfres i ben neu beidio ail-gomisiynu, dylid llunio cynllun cyfathrebu i ddelio gydag unrhyw ymholiadau neu drafodaethau.

Roedd teimlad cryf y dylid gwneud defnydd helaethach o grwpiau ffocws er mwyn canfod barn ystod ehangaf posibl y gynulleidfa, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn gwylio S4C yn rheolaidd.

4. **Cyfarfod Cynrychiolwyr Cyngor TAC**

Eglurodd y Cadeirydd fod y sesiwn gyda chynrychiolwyr Cyngor TAC yn drefniant blynyddol er mwyn rhoi cyfle i Fwrdd yr Awdurdod glywed barn y sector parthed y berthynas gydag S4C.

**[Crynodeb:** Roedd S4C wedi nodi hyfforddiant fel pwnc penodol i'w drafod. Croesawyd y ffaith fod TAC wedi cymryd yr awenau o ran trefnu hyfforddiant i'r diwydiant a chadarnhawyd bod blwyddyn o gyrsiau hyfforddiant ar draws y sector wedi'u cynllunio, a'u cyllidebu. Roedd trafodaethau eisoes wedi digwydd rhwng TAC a cholegau megis Met Caerdydd, ac mae Prifysgol De Cymru yn cydweithio'n agos gyda Rondo. Roedd OE wedi cyfarfod gyda'r Llywodraeth a chael ymateb cadarnhaol o ran cyllido a chydweithio.

Awgrymwyd bod cwmnïau yn cael anawsterau recriwtio yn y Gogledd ac roedd peth pryder ymysg aelodau TAC fod talent yn mynd tu draw i'r ffin. Nodwyd y pwysigrwydd o sicrhau hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Teimlwyd bod y cynllun newydd o gytundebau rhagarchebu cyfresi yn hytrach na'r cytundebau sefydlogi wedi helpu'r sefyllfa.

Credir bod diffyg yn y farchnad lawrydd o ran uwch gynhyrchwyr ac o'r herwydd penderfynwyd cyflogi uwch gynhyrchwyr llawrydd a'u rhoi ar gynyrchiadau penodol. Ar y cyfan, mae'r cwmnïau wedi croesawu'r polisi.

S4C

Cytunwyd y byddai OE yn adrodd yn ôl i'r Awdurdod ym mis Ebrill ac awgrymodd y gellid gofyn am gymorth gan y BBC Academy mewn meysydd hyfforddiant penodol.]

Penderfynwyd y dylid sicrhau diweddariad oddi wrth TAC parthed cytuno a gweithredu strategaeth hyfforddiant y sector.

5. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

5.1 **Bwrdd Masnachol**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd OE ddiweddariad ar weithgareddau'r Bwrdd Masnachol. Eglurwyd y bydd opsiynau ar gyfer strategaeth buddsoddiadau'r Bwrdd Masnachol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Chwefror.]

5.2 **Cydleoli ac Adleoli**

Cafwyd diweddariad ar y cynllun Cydleoli ac Adleoli gan OE ac EM. Adroddwyd fod Nia Bennett wedi'i chyflogi i ddelio gyda gwaith adnoddau dynol.

Roedd OE ac EM wedi mynychu cyfarfod o Fwrdd yr Egin yr wythnos diwethaf, ac adroddwyd ei bod yn edrych yn debyg y bydd yr adeilad yn barod erbyn mis Gorffennaf.

Mae siarterau timau ar y gweill, sy'n datgan yn union sut fydd timau'n gweithio o fewn yr Egin. Gobeithir y bydd modd cwblhau'r gwaith ym mis Ionawr.

**[Crynodeb:** Mae swyddogion S4C wedi bod yn cyfarfod gyda PCDDS ynglŷn â'r cwmnïau allanol oedd â diddordeb yn yr Egin yn y cynllun gwreiddiol, megis y BBC a'r Mentrau Iaith.]

Nodwyd fod angen sicrhau fod y Drindod yn dod i gytundeb gyda thenantiaid ar gyfer yr Egin, a chyflawni'r amod cytundebol i sicrhau y bydd 60% o ofod y ganolfan wedi ei llenwi erbyn y bydd S4C yn symud i mewn.

Penderfynwyd y dylid cyflwyno diweddariad misol am ddatblygiadau'r Egin i'r Awdurdod.

**MATERION CHWARTEROL**

6. **Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 2 2017/18**

Cyflwynodd GW adroddiad Cyfathrebu Chwarter 2, gyda'r adroddiad hwn yn pontio'r hen ffurf a ffurf arfaethedig yr adroddiad.

**[Crynodeb**: Amlinellwyd y gwaith a wnaethpwyd i hyrwyddo un gyfres benodol. Holwyd os oedd gwersi wedi'u dysgu o'r cynllun hyrwyddo a sut mae mynd ati i dracio llwyddiant cynllun marchnata. Roedd y gyfres hefyd yn rhan o gynllun lle'r oedd yr holl gyfres ar gael ar ddiwedd y darllediad.]

7. **Adroddiadau o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod**

**Cyfarfod y Pwyllgor Cynnwys**

Cyflwynodd HJ adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar y 30ain o Dachwedd.

Y genre dan sylw oedd drama. Roedd cefnogaeth i'r cydsyniad fod drama yn elfen hanfodol o'r gwasanaeth, a bod y strategaeth yn llwyddiannus o ran cyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Nodwyd fod Bang wedi ei enwebu ar gyfer un o wobrau'r Writers Guild, ar y rhestr gyda Line of Duty a Taboo.

8. **Trafod rhaglenni'r mis aeth heibio**

**[Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio. Ymhlith y pynciau a godwyd wrth drafod - cafwyd croeso i raglen oedd yn cyflwyno cymeriadau o'r gorllewin; cyfeiriwyd at gyfres a elwodd o gymorth uwch-gynhyrchydd; a chodwyd pryder am bortread amrywiaeth a nodwyd yr angen i fod yn fwy gofalus a sensitif wrth ystyried amrywiaeth yn y dyfodol.]

9. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

10. **Adroddiad Cwynion**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd yr adroddiad cwynion er gwybodaeth.]

11. **Rhaglen Waith yr Awdurdod**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith yr Awdurdod er gwybodaeth. Nodwyd y bydd Diwrnod i Ffwrdd yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2018.

12. **Unrhyw Fater Arall**

Nododd OE y bydd polisi amrywiaeth newydd ar gyfer S4C, y sector a'r gwasanaeth ar-sgrin yn cael ei lunio'n fuan, ac y bydd yn cyflwyno drafft i'r Awdurdod ym mis Ionawr.

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.